

## Tasg 3

# Oeddech chi'n gwybod?

### Tips!

Mae'r sleid olaf yn dweud:

Mae'n bosib gwefru batri ffôn symudol gydag wrin.



Pa mor aml mae angen gwefru batri ffôn?

Mae hyn yn dibynnu ar sut a faint mae'r ffôn yn cael ei ddefnyddio. Os ydych chi'n defnyddio'r ffôn llawer i chwilio am wybodaeth ar y we a chwarae gemau bydd angen gwefru'r ffôn yn amlach na phetaech chi'n defnyddio'r ffôn ar gyfer gwneud galwadau yn unig.

1. Ysgrifennwch 5 darn o gyngor ar sut i wneud i fatri ffôn bara'n hirach. Os nad ydych chi'n gallu meddwl am 5 syniad, chwiliwch ar y we am wybodaeth.
2. Mewn grŵp, cymharwch eich syniadau.
3. Ar ôl gorffen, ewch i'r adran **Syniadau**.

### Gwneud hysbyseb

Mewn grŵp, rydych chi'n mynd i wneud hysbyseb ar gyfer y teledu neu'r we ar sut i arbed pŵer yn eich ffôn.

1. Ysgrifennwch y sgript – defnyddiwch y syniadau rydych chi wedi eu trafod uchod.
2. Penderfynwch sut rydych chi'n mynd i ffilmio'r darn, e.e.
  - Ydych chi'n mynd i actio rhannau er mwyn dangos eich syniadau?
  - Ydych chi'n mynd i ddefnyddio cyfarpar arbennig? – beth?
  - Ydych chi'n mynd i gynnwys cerddoriaeth yn y cefndir?
3. Penderfynwch pwy sy'n mynd i wneud beth.
4. Ar ôl gorffen, dangoswch eich hysbyseb i'r dosbarth.
5. Gwerthuswch waith eich gilydd.